

Polisi Cymorth Cyntaf

Ysgol Llanbedrog



Dyddiad Cymeradwyo: 20/10/19

Dyddiad Adolygu: Tymor yr Hydref 2022 (blynyddol)

Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr: Alaw Ceris

Dyddiad: 24/10/22

Hyfforddiant llawn

- MHO- 20/1/22
- GLJ- 10/11/22
- SAE- 19/10/22
- CEH- 10/11/21
- MMO- 20/1/23

Hyfforddiant undydd

- LIM- 17/2/23,
- MJ - 17/2/23
- EHW - 17/2/23

1. Personél Cymorth Cyntaf

- 1.1 Bydd y Pennaeth yn cynnal asesiad blynyddol o anghenion cymorth cyntaf yr ysgol.
- 1.2 Bydd yr ysgol yn sicrhau bod nifer digonol o staff wedi cael eu hyfforddi i roi cymorth cyntaf neu rywun a benodir yn unol â chanllawiau'r Sir (gweler Adran 3.1 o ffeil Anghenion Meddygol mewn Ysgolion).
- 1.3 Rhaid i staff wirfoddoli i gael eu hyfforddi i roi cymorth cyntaf gan nad oes rhwymedigaeth gytundebol.
- 1.4 Mae'n gyfrifoldeb ar y staff hynny sydd wedi eu hyfforddi mewn rhoi cymorth cyntaf i hysbysu'r pennaeth o'r dyddiad y daw eu tystysgrif i ben. Dylid rhoi rhybudd digonol fel y gellir cadw lleoedd ar gyrsiau 'gloywi'.
- 1.5 Caiff rhestr o'r staff hynny sy'n cael eu hyfforddi mewn cymorth cyntaf ei arddangos ar ddrws yr ystafell driniaeth.

2. Offer Cymorth Cyntaf

- 2.1 Mae'r ysgol yn darparu blychau cymorth cyntaf a leolir yn yr ystafell athrawon. Cedwir yr eitemau hynny a restrir yn Adran 3.4 o ffeil "Anghenion Meddygol mewn Ysgolion" yn y blychau hyn.
- 2.2 Rhaid ailgyflenwi unrhyw stoc a ddefnyddir o unrhyw un o'r ddau flwch cymorth cyntaf hyn cyn gynted â bo modd. Rhaid i staff ysgol sy'n defnyddio unrhyw stoc cymorth cyntaf hysbysu ysgrifenyddes yr ysgol sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r blychau cymorth cyntaf.
- 2.3 Pan mae staff yn defnyddio'r ystafell driniaeth ar gyfer rhoi cymorth cyntaf, hwy sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn gadael yr ystafell yn lân a thaclus ar eu holau.
- 2.4 Rhaid glanhau unrhyw orlif (hylifau corff neu eraill) cyn gynted a bo modd a gwneud hynny trwy ddilyn y 'Rhagofalon Cyffredinol' ar gyfer delio â gorlifau o'r fath. Ceir copïau o'r rhagofalon yn Adran 6.1 o ffeil 'Anghenion Meddygol Mewn Ysgolion' ac ar y poster 'Iechyd y Genedl' yn yr ystafell driniaeth.

3. Hysbysu ynghylch Damweiniau

- 3.1 Rhaid cofnodi pob damwain sy'n ymwneud â gwaith, boed hynny yn digwydd i aelod staff, disgybl, ymwelydd neu gontractwr gan gynnwys methiant agos ar ffurflen HS11. (Gweler enghreifftiau Adran 3.6 o fewn y Ffeil Anghenion Meddygol).
- 3.2 Os oes anaf difrifol neu farwolaeth i unrhyw un yn digwydd rhaid adrodd i'r Ymgynghorydd Iechyd, Diogelwch a Lles yn syth ar 01286 679459.
- 3.3 Mae unrhyw aelod o'r staff sy'n rhoi cymorth cyntaf i ddisgybl, yn gyfrifol am sicrhau yr hysbysir y rhieni (gellir gwneud hyn trwy'r pennaeth).

Yn ystod pandemig Covid-19 bydd staff yn gwisgo offer diogelwch personol wrth roi Cymorth Cyntaf.